

Eich canllaw i'r Benthyciad Ôl-raddedig



2017/18



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**

cyllid myfyrwyr **cymru**  
student finance **wales**

## Beth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru?

**Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru a'r UE sy'n cychwyn ar addysg uwch yn y DU.**

Rydym yma i helpu a gallwn gynnig cymorth ariannol i chi pan fyddwch ei angen fwyaf – yn ystod eich astudiaethau.

Bydd y canllaw hwn yn dweud popeth wrthy ch y bydd angen i chi ei wybod am y Benthyciad Ôl-raddedig a'r help ychwanegol sydd ar gael os oes gennych chi anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

I wneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig, trowch at **[www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk)**

Gallwch weld diweddariadau rheolaidd ar Facebook, Twitter ac YouTube:

**f** [facebook.com/SFWales](https://www.facebook.com/SFWales)


**t** [twitter.com/SF\\_Wales](https://twitter.com/SF_Wales)

**YouTube** [youtube.com/SFWFILM](https://www.youtube.com/SFWFILM)

# Cynnwys



	tudalen
<b>1</b> Beth allaf i ei gael?	3
<b>2</b> A ydw i'n gymwys?	4
<b>3</b> Sut a phryd ddylwn i wneud cais?	8
<b>4</b> Sut fyddaf yn cael fy nhalu?	11
<b>5</b> Beth am ad-daliadau?	12
<b>6</b> Cysylltiadau a gwybodaeth ddefnyddiol	16



## Benthyciad Ôl-raddedig

### Beth yw diben hwn?

Mae'r Benthyciad Ôl-raddedig yn helpu talu costau'ch cwrs a'ch costau byw tra byddwch yn astudio cwrs Meistr ôl-raddedig.

### Faint allaf i ei gael?

Gallech gael hyd at £10,280 ar gyfer eich cwrs cyfan. Bydd yr uchafswm y gallwch ei gael bob blwyddyn yn dibynnu ar hyd eich cwrs.

**Os yw'ch cwrs yn para dwy flynedd,** gallwch gael hyd at £5,140 yn ystod eich blwyddyn gyntaf a hyd at £5,140 yn ystod eich ail flwyddyn.

**Os yw'ch cwrs yn para tair blynedd,** gallwch gael hyd at £3,426 yn ystod eich blwyddyn gyntaf a'ch ail flwyddyn, a hyd at £3,428 yn ystod eich trydedd flwyddyn.

**Os yw'ch cwrs yn para pedair blynedd,** gallwch gael hyd at £2,570 yn ystod pob blwyddyn academaidd.

Fe'ch telir mewn tri rhandaliad ar gyfer pob blwyddyn academaidd. Er enghraifft, os ydych yn astudio cwrs amser llawn sy'n para blwyddyn, swm eich rhandaliad cyntaf a'ch ail randaliad fydd £3,392.40 a swm y trydydd rhandaliad fyddai £3,495.20.

### A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

**Bydd,** ond nid nes bydd eich incwm yn uwch na'r trothwy ad-dalu. Gallwch gael gwybod mwy am ad-dalu'ch Benthyciad Ôl-raddedig ar dudalen 12.

## Help ychwanegol – Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl (DSAs)

### Beth yw diben hwn?

Mae DSAs yn helpu talu costau hanfodol posibl o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd, gan gynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, megis dyslecsia neu ddyspracsia.

Bydd faint fyddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich anghenion unigol, nid incwm eich cartref. Gallwch gael hyd at £10,590 bob blwyddyn i'ch helpu i dalu'r costau ychwanegol posibl, megis gweithwyr cymorth, offer arbenigol, costau teithio a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag astudio.

### A fydd yn rhaid i mi ei dalu'n ôl?

Na fydd, oni bai y byddwch yn gadael eich cwrs yn gynnar.

### Unrhyw beth arall?

Gallwch wneud cais am DSAs hyd yn oed os nad ydych yn gymwys i gael Benthyciad Ôl-raddedig neu os nad ydych yn dymuno gwneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig.

Am ragor o wybodaeth am DSAs, darllenwch 'Help ychwanegol – Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl', sydd ar gael i'w lawrlwytho o

**[www.cyllidmyfyrrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrrwycymru.co.uk)**



## Amgylchiadau personol

Er mwyn cael Benthyciad Ôl-raddedig, rhaid i chi fodloni meini prawf penodol ynghylch cenedligrwydd a manylion preswyllo, oedran ac astudio blaenorol.

### Cenedligrwydd a manylion preswyllo

I wneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig, rhaid eich bod:

- yn ddinesydd o'r DU, neu'n meddu ar statws preswlydd sefydlog (mae hyn yn golygu nad oes unrhyw gyfyngiadau ar ba mor hir y gallwch aros yn y DU),
- yn byw yng Nghymru fel arfer, a heb fod wedi symud yno i astudio, ac
- wedi bod yn byw yn y DU am o leiaf dair blynedd cyn dechrau'ch cwrs.

Efallai y gallwch gael Benthyciad Ôl-raddedig hefyd os ydych:

- yn ffoadur, neu'n berthynas i ffoadur,
- yn destun diogelwch dyngarol o ganlyniad i gais aflwyddiannus am loches ac yn byw yng Nghymru,
- wedi sicrhau Caniatâd Dewisol i aros yn y DU, neu os ydych yn berthynas i rywun y rhoddwyd Caniatâd Dewisol iddynt i aros yn y DU, lle nad oes unrhyw gais am loches wedi cael ei wneud,
- derbyn caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig neu'n perthyn i rywun sydd wedi cael caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd preifat.

- wedi sicrhau caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu i aros yn y DU, neu'n berthynas i rywun y rhoddwyd caniatâd iddynt i ddod i mewn neu i aros o ganlyniad i gais aflwyddiannus am loches,
- yn weithiwr mudol o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, neu'n berthynas i weithiwr mudol o'r fath,
- yn blentyn dinesydd Swistir,ol,
- yn blentyn gweithiwr o Dwrci, neu'n
- aelod o Luoedd Arfog y DU, neu'n berthynas i rywun yn y Lluoedd Arfog, ac rydych yn astudio cwrs Meistr dysgu o bell cymwys y tu allan i'r DU.
- yn berson heb wladwriaeth, neu'n aelod o deulu un.

I fod yn gymwys fel person heb wladwriaeth, rhaid i chi fod wedi byw yn y Deyrnas Unedig am o leiaf tair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs.

Os ydych yn ddinesydd UE sydd wedi bod yn byw yn yr AEE neu'r Swistir am o leiaf dair blynedd cyn dechrau'ch cwrs, gallwch wneud cais am Fenthyciad Ôl-raddedig hefyd.

Os ydych yn dod o ran arall o'r DU ac rydych wedi symud i Gymru i astudio, ni allwch gael Benthyciad Ôl-raddedig gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Dylech gysylltu â'ch darparwr cyllid eich hun am wybodaeth bellach am y cymorth ôl-raddedig sydd ar gael.

## Eich oedran

Rhaid eich bod dan 60 oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs er mwyn cael Benthyciad Ôl-raddedig.

Bydd diwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd yn dibynnu ar yr adeg pan fydd eich cwrs yn cychwyn.

Os yw'ch cwrs yn cychwyn rhwng:	Diwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd:
1 Awst a 31 Rhagfyr	1 Medi
1 Ionawr a 31 Mawrth	1 Ionawr
1 Ebrill a 30 Mehefin	1 Ebrill
1 Gorffennaf a 31 Gorffennaf	1 Gorffennaf

## Astudio blaenorol

Dim ond os nad ydych yn meddu ar radd Meistr yn barod, neu gymhwyster arall ar lefel uwch, megis PhD, y gallwch gael Benthyciad Ôl-raddedig.

Os byddwch yn cael Benthyciad Ôl-raddedig ar gyfer cwrs, ond na fyddwch yn ei gwblhau, **ni allwch gael ail Fenthyciad Ôl-raddedig**. Efallai y gallwch gael Benthyciad Ôl-raddedig arall os bydd angen i chi ailadrodd eich cwrs am resymau personol eithriadol, megis salwch. Byddai angen i chi anfon tystiolaeth atom i gefnogi hyn.

I gael gwybod mwy am sut y gallai gadael eich cwrs yn gynnar effeithio arnoch chi, darllenwch 'Cymryd seibiant o'ch cwrs neu adael eich astudiaethau', sydd ar gael i'w lawrlwytho o [www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk)

Mae cymwysterau MA gan brifysgol yn yr Alban, Prifysgol Rhydychen, Prifysgol Caergrawnt neu Goleg y Drindod Dulyn ar lefel is na chymhwyster Meistr ôl-raddedig. Os oes gennych chi gymhwyster MA o un o'r prifysgolion hyn, gallwch gael Benthyciad Ôl-raddedig o hyd.

## Eich cwrs

Rhaid bod eich cwrs yn y DU, rhaid iddo fod yn gwrs a addysgir neu sy'n seiliedig ar ymchwil, ac mae'n rhaid iddo arwain at gymhwyster Meistr, fel:

- Meistr yn y Gwyddorau (MSc)
- Meistr yn y Celfyddydau (MA)
- Meistr mewn Athroniaeth (MPhil)
- Meistr mewn Ymchwil (MRes)
- Meistr yn y Cyfreithiau (LLM)
- Meistr Llythrennau (MLitt)
- Meistr yn y Celfyddydau Cain (MFA)
- Meistr mewn Addysg (MED)
- Meistr mewn Gweinyddiaeth Busnes (MBA)

Ni allwch gael Benthyciad Ôl-raddedig os ydych yn 'ychwanegu at' gymhwyster ar lefel is er mwyn cyrraedd lefel gradd Meistr. Rhaid bod y cwrs yn gwrs Meistr llawn ar ei ben ei hun.

Gallwch astudio'ch cwrs mewn prifysgol neu dan drefniant dysgu o bell. Os ydych yn astudio dan drefniant dysgu o bell, rhaid eich bod yn byw yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eich cwrs (gweler tudalen 5 am ddyddiadau cychwyn blynyddoedd academiaidd).

Os ydych yn astudio dan drefniant amser llawn, gall y cwrs bara un neu ddwy flynedd. Os ydych yn astudio dan drefniant rhan-amser, gallwch astudio am hyd at ddwy flynedd ar gyfer y cwrs amser llawn cyfatebol sy'n para blwyddyn, am hyd at bedair blynedd ar gyfer y cwrs amser llawn cyfatebol sy'n para dwy flynedd, neu am hyd at dair blynedd pan na cheir cwrs amser llawn cyfatebol.

Nid oes modd i chi gael Benthyciad Ôl-raddedig ar gyfer cyrsiau ar lefel ôl-raddedig, megis Tystysgrif Ôl-raddedig (PgCert) neu Ddiploma Ôl-raddedig (PgDip), neu pan gaiff y cwrs ôl-raddedig ei ariannu gan gyllid i fyfyrwyr israddedig megis:

- Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA)
- Gradd Meistr Integredig (er enghraifft, MPharm)

Os ydych chi'n astudio cwrs Meistr mewn Pensaerniaeth (MArch), fel arfer gallech gael cymorth israddedig. Efallai y gallwch gael Benthyciad Ôl-raddedig os nad yw hwn ar gael i chi, er enghraifft, os ydych yn astudio dan drefniant rhan-amser.

Os bydd gennych chi unrhyw amheuaeth, dylech holi'ch prifysgol a yw'ch cwrs yn gymwys i gael Benthyciad Ôl-raddedig ar ei gyfer.



## Eich prifysgol

Rhaid bod eich prifysgol yn y DU ac mae'n rhaid ei bod:

- yn cael ei hariannu gan gyllid cyhoeddus (mae'r llywodraeth yn talu amdani), neu'n
- cael ei hariannu gan gyllid preifat, ac yn rhedeg cyrsiau sy'n gymwys i gael cyllid i fyfyrwr ar eu cyfer.

Os bydd gennych chi unrhyw amheuaeth, holwch eich prifysgol.

Os ydych yn ddinesydd UE ac nad ydych yn byw yng Nghymru fel arfer, rhaid eich bod yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru i gael Benthyciad Ôl-raddedig.

## Ffynonellau cyllid eraill

Ni allwch gael Benthyciad Ôl-raddedig os gallwch wneud cais am fwrsariaeth gofal iechyd, neu os ydych yn cael bwrsariaeth gwaith cymdeithasol gan:

- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)
- Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (DHSSPS),
- Student Awards Agency Scotland (SAAS), neu
- Gofal Cymdeithasol Cymru.





## Ymgeisio ar-lein

Y ffordd gyflymaf a hawsaf o ymgeisio am Fenthyciad Ôl-raddedig yw ar-lein ar [www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)

Os ydych chi wedi cael cyllid i fyfyrwyr am gwrs israddedig yn barod, ni fydd angen i chi gofrestru eto. Gallwch ddefnyddio'r Cyfeirnod Cwsmer, y cyfrinair a'r ateb cyfrinachol sydd gennych chi'n barod.

Os ydych chi'n cofrestru am y tro cyntaf, byddwch yn creu cyfrinair ac ateb cyfrinachol. Bydd angen i chi gadw'r rhain yn ddiogel oherwydd byddwch eu hangen er mwyn mewngofnodi i'ch cyfrif.

Dylech ymgeisio cyn gynted â phosibl i sicrhau bod eich Benthyciad Ôl-raddedig yn barod ar gyfer dechrau'ch cwrs.

Nid oes angen bod eich lle mewn prifysgol wedi ei gadarnhau. Gallwch wneud cais gan ddefnyddio'ch cwrs dewis cyntaf a diweddarau'r manylion yn nes ymlaen, os bydd angen i chi wneud hynny.

Er mwyn llenwi'ch cais, byd angen i chi gael:

- pasbort dilys y DU (os oes gennych un),
- manylion eich prifysgol a'ch cwrs,
- manylion eich cyfrif banc, a'ch
- rhif Yswiriant Gwladol.

Ar ôl i chi ddechrau'ch cais, gallwch ei gadw ar unrhyw adeg a dychwelyd iddo yn nes ymlaen.

Gofynnir i chi nodi swm y Benthyciad Ôl-raddedig yr hoffech ei gael, hyd at yr uchafswm o £10,280. Os yw'ch cwrs yn para mwy na blwyddyn, gofynnir i chi faint yr hoffech ei gael yn eich blwyddyn gyntaf, hyd at yr uchafswm sydd ar gael (gweler tudalen 3).

Er mwyn cael Benthyciad Ôl-raddedig, rhaid i chi wneud cais heb fod dros naw mis ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd olaf eich cwrs. Gallwch weld dyddiadau cychwyn blynyddoedd academiaidd yn y tabl ar dudalen 5.



## Tystiolaeth

Pan fyddwch yn ymgeisio, gofynnir i chi am rywfaifnt o dystiolaeth neu wybodaeth i gefnogi'ch cais. Yn y rhan fwyaf o achosion, gallwch ddarparu popeth y bydd ei angen arnom yn hawdd trwy nodi'r manylion yn eich cais.

Trwy roi manylion eich pasbort dilys y DU pan fyddwch yn ymgeisio, gallwn wirio'ch hunaniaeth yn awtomatig felly ni fydd angen i chi anfon eich pasbort atom.

Os nad oes gennych chi basbort dilys y DU, bydd yn rhaid i chi anfon eich tystysgrif geni neu fabwysiadu y DU neu basbort nad yw'n basbort y DU atom.

Rhaid i unrhyw dystiolaeth hunaniaeth y byddwn yn gofyn amdani fod yn dystiolaeth wreiddiol, nid llungopiau. Byddwn yn eu dychwelyd cyn gynted ag y bo modd. Cofiwch gynnwys eich Cyfeirnod Cwsmer gyda phopeth y byddwch yn ei anfon atom.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y gofynnir i chi anfon gwybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol atom, er enghraifft, tystiolaeth o'ch cyfeiriadau blaenorol neu ddogfennau gan y Swyddfa Gartref.

Nid yw'ch cais yn gyflawn nes byddwn yn cael popeth y bydd angen i ni ei gael. Os hoffech gael eich arian mewn pryd ar gyfer dechrau'ch cwrs, dylech anfon unrhyw dystiolaeth y byddwn yn gofyn amdani cyn gynted ag y bo modd.

## Gwneud cais am Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl

Os ydych yn gwneud cais am Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl (DSAs), bydd angen i chi lenwi ffurflen lawn DSA1 a darparu tystiolaeth i gadarnhau bod gennych chi anabledd sy'n effeithio ar eich astudiaethau.

Gallwch lawrlwytho ffurflen lawn DSA1 o'ch cyfrif ar-lein ar ddiwedd eich prif gais.

Gall gymryd hyd at 14 wythnos i brosesu cais am DSAs, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon eich cais mor gynnar â phosibl.

I gael gwybod mwy am ymgeisio am DSAs, darllenwch 'Help ychwanegol – Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl', y gellir ei lawrlwytho o [www.cyllidmyfyrrwrycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrrwrycymru.co.uk)



## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Ar ôl i chi gyflwyno'ch cais, dylech ddarllen ffurflen y datganiad. Bydd ar gael yn eich cyfrif ar-lein ar ddiwedd eich cais. Dylech ei hargraffu, ei llofnodi a'i dychwelyd atom cyn gynted ag y bo modd.

Ar ôl i ni asesu'ch cais, byddwn yn anfon llythyr atoch sy'n cadarnhau faint o Fenthyciad Ôl-raddedig y gallwch ei gael. Bydd yn dangos hefyd pa ddyddiadau y gallwch ddisgwyl gael eich talu. Dylech gadw'r llythyr hwn yn ddiogel oherwydd y gallai'ch prifysgol yn gofyn am gael ei weld pan fyddwch yn cofrestru.

## Beth os bydd unrhyw beth yn newid?

Os bydd unrhyw rai o'ch manylion yn newid ar ôl i chi wneud cais am eich Benthyciad Ôl-raddedig, peidiwch â gofidio – gallwch ddiweddarau'ch cais.

I ddiweddarau'ch manylion personol, mewngofnodwch i'ch cyfrif ar

**[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)**

I ddiweddarau unrhyw fanylion eraill, fel eich prifysgol neu'ch cwrs, bydd angen i chi anfon ffurflen 'Newid mewn amgylchiadau Ôl-raddedig' atom wedi'i llenwi. Gallwch lawrlwytho hon o **[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)**

Yn ogystal, gallwch newid swm y Benthyciad Ôl-raddedig yr ydych wedi gwneud cais amdano, hyd at yr uchafswm o £10,280. Bydd angen i chi wneud hyn naw mis ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd olaf eich cwrs. I wneud hyn, bydd angen i chi anfon ffurflen 'Cais am Fenthyciad Ôl-raddedig' atom wedi'i llenwi. Gallwch lawrlwytho hon o

**[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)**

Os byddwch yn gadael neu'n stopio'ch astudiaethau ar ôl i chi gychwyn ar eich cwrs, rhaid i chi roi gwybod i ni a'ch prifysgol. I gael gwybod mwy am sut y gallai hyn effeithio arnoch, darllenwch 'Cymryd seibiant o'ch cwrs neu adael eich astudiaethau', y gellir ei lawrlwytho o

**[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)**



## Cychwyn ar eich cwrs

Rhaid i chi gofrestru yn eich prifysgol cyn y gallwn dalu'r taliad cyntaf i chi. Ar ôl i'ch prifysgol ddweud wrthym eich bod wedi cofrestru, byddwn yn talu eich taliad cyntaf.

## Cael eich talu

Byddwn yn talu'ch Benthyciad Ôl-raddedig i'ch cyfrif banc. Gall gymryd tri diwrnod gwaith i'r arian gyrraedd eich cyfrif.


Byddwch yn cael eich Benthyciad Ôl-raddedig ar ffurf tri rhandaliad trwy gydol y flwyddyn academaidd.

**Rhybudd** – byddwch yn wylidwrus o negeseuon e-bost twyllodrus gan unrhyw un sy'n honni eu bod yn ysgrifennu atoch o Gyllid Myfyrwyr Cymru. Ni fyddwn fyth yn gofyn i chi ddiweddarau'ch manylion banc neu gadarnhau manylion eich cyfrif mewn neges e-bost.

Os byddwch yn cael neges e-bost yn gofyn i chi roi manylion neu ddilyn dolen i wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru, dylech ei hanfon i **phishing@slc.co.uk**. Ni ddylech ateb y neges e-bost na chlicio ar unrhyw ddolenni.

## A fydd angen i mi ailymgeisio bob blwyddyn?

Dim ond unwaith y bydd yn rhaid i chi wneud cais am eich Benthyciad Ôl-raddedig. Ni fydd yn rhaid i chi ailymgeisio os yw'ch cwrs yn para mwy na blwyddyn.



## Pryd fyddaf yn dechrau talu ad-daliadau?

Ni fydd yn rhaid i chi ddechrau talu unrhyw ad-daliadau i'ch Benthyciad Ôl-raddedig cyn mis Ebrill 2019.

O'r adeg honno, bydd gofyn i chi ddechrau talu ad-daliadau o'r mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs. Ond dim ond os bydd eich incwm yn is na'r trothwy ad-dalu y byddwch yn dechrau talu ad-daliadau, sef £21,000 y flwyddyn, £1,750 y mis neu £404 yr wythnos ar hyn o bryd, cyn treth ac Yswiriant Gwladol.

## Sut y caiff ad-daliadau eu cymryd?

**Os ydych yn gyflogedig**, bydd eich cyflogwr yn cymryd ad-daliadau o'ch cyflog yn uniongyrchol, ynghyd â threth ac Yswiriant Gwladol.

Os byddwch yn stopio gweithio neu os bydd eich incwm yn gostwng dan £21,000 y flwyddyn, bydd eich ad-daliadau'n stopio yn awtomatig nes byddwch yn ennill swm sy'n uwch na'r trothwy unwaith eto.

Bydd eich cyflogwr yn dweud wrth Gyllid a Thollau EM (HMRC) faint o'r benthyciad myfyriwr yr ydych chi wedi'i ad-dalu.

Ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, bydd HMRC yn dweud wrthym faint ydych chi wedi'i dalu, a byddwn yn neilltuo'r ad-daliadau i'ch balans, gan gyfrifo'r llog i'w ychwanegu.

**Os ydych yn hunanasesu**, byddwch yn ad-dalu i HMRC yn uniongyrchol trwy'r trefniadau hunanasesu ar yr un pryd ag y byddwch yn talu eich treth.

Ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, bydd HMRC yn dweud wrthym faint ydych chi wedi'i dalu yn ystod y flwyddyn honno, a byddwn yn neilltuo'r ad-daliadau i'ch balans, gan gyfrifo'r llog i'w ychwanegu.

**Os ydych yn bwriadu byw, gweithio neu deithio mewn gwlad dramor** am dros dri mis ar ôl eich cwrs, bydd angen i chi lenwi Ffurflen Asesu Incwm Tramor er mwyn i ni allu cyfrifo a fydd angen i chi dalu ad-daliadau. Byddwn yn anfon amserlen ad-dalu atoch a fydd yn nodi'r swm y bydd angen i chi ei ad-dalu bob mis.

Gallwch ddarganfod mwy am ad-dalu'ch benthyciadau ar

**[www.studentloanrepayment.co.uk](http://www.studentloanrepayment.co.uk)**

## Faint fyddaf yn ei ad-dalu tuag at fy Menthyciad Ôl-raddedig?

Bydd faint fyddwch yn ei ad-dalu yn dibynnu ar eich incwm, nid y swm y gwnaethoch chi ei fenthyca. Byddwch yn ad-dalu 6% o'ch incwm dros y trothwy ad-dalu.


Felly os ydych yn cael eich talu bob mis ac os ydych yn ennill £2,500 y mis cyn treth, byddwch yn ad-dalu 6% o'r gwahaniaeth rhwng y swm yr ydych yn ei ennill a'r trothwy misol (£1,750 ar hyn o bryd).

$$£2,500 - £1,750 = £750$$

$$6\% \text{ o } £750 = £45$$

Felly swm eich ad-daliad Benthyciad Ôl-raddedig fyddai £45 y mis hwnnw.

### Eich incwm misol



### Byddwch chi'n ad-dalu



Mae'r tabl canlynol hwn yn dangos faint y byddwch yn ei ad-dalu tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig gan ddibynnu ar eich incwm:

Incwm bob blwyddyn (cyn treth)	Cyflog misol	Ad-daliad misol
£21,000	£1,750	£0
£22,000	£1,833	£4
£23,500	£1,958	£12
£25,000	£2,083	£19
£27,000	£2,250	£30
£30,000	£2,500	£45

Cymerir ad-daliad os nad ydych chi'n ennill £21,000 mewn blwyddyn ond os bydd faint fyddwch yn ei ennill yn uwch na'r trothwy misol neu wythnosol ar unrhyw adeg, er enghraifft, os byddwch yn gwneud gwaith goramser neu'n cael bonws.

Gallwch wneud ad-daliad gwirfoddol tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig ar unrhyw adeg.

Os byddwch yn gadael eich cwrs yn gynnar ac os byddwch yn cael gordaliad, bydd angen i chi ad-dalu'r swm hwn cyn gynted ag y bo modd. Mae hyn yn golygu na fyddwch o reidrwydd yn ennill dros y trothwy ad-dalu. Am ragor o wybodaeth, lawrlwythwch ein prif ganllaw 'Cymryd seibiant o'ch astudiaethau neu adael eich cwrs'.

## Beth am y llog?

Codir llog ar eich Benthyciad Ôl-raddedig o'r diwrnod pan fyddwn yn talu'r taliad cyntaf i chi, nes y caiff eich benthyciad ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo.

Codir llog yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) a 3%.

## Pryd y caiff Benthyciad Ôl-raddedig ei ganslo?

Caiff balans unrhyw Fenthyciad Ôl-raddedig sydd ar ôl 30 o flynyddoedd ar ôl i chi ddechrau ad-dalu, ei ganslo.

## Beth os ydw i wedi cael benthyciad myfyriwr yn barod?

Os ydych chi wedi cael unrhyw fenthyciadau eraill gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrrwyr yn barod ac mae'ch incwm yn uwch na'r trothwy, byddwch yn ad-dalu'r rhain ar yr un pryd â'ch Benthyciad Ôl-raddedig.

Bydd faint fyddwch yn ei ad-dalu tuag at y benthyciadau myfyriwr yr ydych chi wedi'i gael yn barod ar gyfer eich cwrs israddedig yn dibynnu ar yr adeg pan wnaethoch chi astudio.

### Os cychwynnoch ar eich cwrs israddedig ar neu ar ôl 1 Medi 2012 (Cynllun 2)

Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros £21,000 tuag at y benthyciadau myfyrrwyr y gwnaethoch chi eu benthycia ar gyfer eich cwrs israddedig a 6% o'ch incwm dros £21,000 tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig. Mae hyn yn golygu y byddwch yn ad-dalu 15% o'ch incwm dros £21,000 at ei gilydd.

Incwm bob blwyddyn (cyn treth)	Cyflog misol	Ad-daliad benthyciad israddedig	Ad-daliad Benthyciad Ôl-raddedig
£21,000	£1,750	£0	£0
£22,000	£1,833	£7	£4
£23,500	£1,958	£18	£12
£25,000	£2,083	£29	£19
£27,000	£2,250	£45	£30
£30,000	£2,500	£67	£45

## Os cychwynnoch ar eich cwrs israddedig rhwng 1 Medi 1998 ac 1 Medi 2012 (Cynllun 1)

Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros £17,775 tuag at y benthyciad myfyriwr y gwnaethoch ei fenthyca ar gyfer eich cwrs israddedig a 6% o'ch incwm dros £21,000 tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig.

Incwm bob blwyddyn (cyn treth)	Cyflog misol	Ad-daliad benthyciad israddedig	Ad-daliad Benthyciad Ôl-raddedig
£17,775	£1,481	£0	£0
£21,000	£1,750	£24	£0
£22,000	£1,833	£31	£4
£25,000	£2,083	£54	£19
£27,000	£2,250	£69	£30
£30,000	£2,500	£91	£45

## Os cychwynnoch ar eich cwrs cyn 1 Medi 1998

Byddwch yn parhau i ad-dalu neu ohirio'r benthyciadau hyn a byddwch yn ad-dalu 6% o'ch incwm dros £21,000 tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig. Nid ydych chi'n gallu gohirio eich Benthyciad Ôl-raddedig. Bydd eich ad-daliadau'n stopio'n awtomatig os bydd eich incwm yn is na'r trothwy.



## Angen help?

Am ragor o wybodaeth am Fenthyciadau Ôl-raddedig neu os hoffech wneud cais, trowch at **[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)**

Am ddiweddariadau rheolaidd, dilynwch ni ar Twitter, hoffwch ni ar Facebook a gwylwch ein ffilmau ar YouTube.

 **[facebook.com/SFWales](https://facebook.com/SFWales)**

 **[twitter.com/SF\\_Wales](https://twitter.com/SF_Wales)**

 **[youtube.com/SFWFILM](https://youtube.com/SFWFILM)**

## Cysylltwch â Chyllid Myfyrwr Cymru

Gallwch ei ffonio ar **0300 100 0494** rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.



Gallwch lawrlwytho rhagor o gopiau o'r canllaw hwn ar-lein ar **[www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk)**.

Gallwch archebu fersiynau Braille, fersiynau print mawr neu fersiynau sain o ffurflenni a chanllawiau hefyd trwy anfon neges e-bost gyda'ch manylion, ynghyd â'r ffurf a fformat sydd angen at **[brailleandlargefonts@slc.co.uk](mailto:brailleandlargefonts@slc.co.uk)** neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**.

Sylwer, dim ond gyda cheisiadau am ffurflenni a chanllawiau mewn ffurfiau amgen y mae modd i'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio â nhw.

WG32180

ISBN: 978-1-4734-9805-1

© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr HMSO 2017.  
Cynhyrwyd gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir atgynhyrchu darnau o'r ddogfen hon at ddibenion ymchwil, addysg neu hyfforddiant anfasnachol, ar yr amod bod y ffynhonnell yn cael ei chydabod. Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â: **[HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk](mailto:HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk)**

Diben y llyfryn hwn yw cynnig arweiniad yn unig, ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith.